# LEFEL 3 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

## Pam dewis Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau?

Mae cymwysterau Lefel 3 Tystysgrif, Diploma a Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn addas i chi os ydych chi dros 16 oed ac mae gennych chi ddiddordeb mewn dysgu mwy am y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cymwysterau yn cynnig llwybr dilyniant addas os ydych chi wedi astudio cymwysterau Lefel 2 yn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, gan gynnwys:

- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Maen nhw hefyd yn addas os nad ydych chi wedi astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn flaenorol ond eich bod â'r gallu i astudio Lefel 3.

Mae'r cymwysterau yn eich galluogi chi i feithrin a dangos eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae gofyn i chi eu cyflawni yn rhan o'r cymwysterau hyn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Os ydych chi'n dilyn unrhyw un o'r cymwysterau hyn, argymhellir yn gryf eich bod wedi cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu eich bod yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

Er mwyn cwblhau'r cymhwyster Diploma a'r cymhwyster Diploma Estynedig, bydd angen i chi ymgysylltu â'r sector am isafswm o 100 awr, a rhaid treulio 60 o'r oriau hynny ar leoliad gwaith.

## Beth fyddaf yn ei astudio?

**Tystysgrif (tair uned orfodol)**

**Uned 1: Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.**

Yn yr uned hon, sy'n cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad, byddwch chi'n:

- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau proffesiynol, rolau ac atebolrwyddau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y sector.
- dysgu am ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n cefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn eu rolau.
- meithrin gwybodaeth am ddulliau a materion moesegol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- deall pwysigrwydd datblygu perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth, dulliau cyfathrebu effeithiol a hybu gofal o safon sy'n canolbwyntio ar unigolion.

**Uned 2: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes.**

Yn yr uned hon, sy'n cael ei hasesu drwy arholiad, byddwch chi'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes a sut mae hyn yn gallu effeithio ar eu canlyniadau llesiant personol ac anghenion gofal a chymorth.

**Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes.**

Yn yr uned hon, sy'n cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad, byddwch chi'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau unigolion a'r rhwystrau i gyfranogiad y gallen nhw eu hwynebu, sut mae'r rhain yn cael eu hybu a'u herio i wella iechyd a llesiant.

**Diploma (chwe uned orfodol)**
**Unedau 1, 2 a 3, fel yr uchod yn – ogystal ag:**
**Uned 4: Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol.**

Yn yr uned hon, sy'n cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad, byddwch chi'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gyflyrau cyffredin, mathau ac achosion, a byddwch chi'n ymchwilio i sut maen nhw'n gallu effeithio ar y corff dynol, yn ogystal ag archwilio'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i unigolion sy'n byw gyda chyflyrau ffisiolegol a'r heriau gallen nhw eu hwynebu.

**Uned 5: Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael.**

Yn yr uned hon, sy'n cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad, byddwch chi'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i gefnogi unigolion sy'n wynebu risg drwy eu galluogi nhw i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael, yn seiliedig ar ddewis o astudiaethau achos a gweld senarios drwy lygaid ymarferydd iechyd neu ofal cymdeithasol.

**Uned 6: Gweithio yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.**

Yn yr uned hon, sy'n cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad, byddwch chi'n meithrin eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol drwy addysgu yn yr ystafell ddosbarth a thrwy ddulliau ymgysylltu gorfodol â'r sector (isafswm o 100 awr, ac mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys 60 awr o leoliad gwaith). Bydd angen i chi gadw dyddiadur myfyriol o'ch profiadau.

**Diploma Estynedig (naw uned orfodol)**

**Uned 7: Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.**

Yn yr uned hon, sy'n cael ei hasesu drwy arholiad, byddwch chi'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o anatomeg a ffisioleg y corff dynol a sut mae systemau ffisiolegol sy'n gweithio'n arferol yn hanfodol wrth gynnal iechyd da. Byddwch chi'n adeiladu ar y wybodaeth hon i ymchwilio i anafiadau, clefydau a chyflyrau a sut gall ffactorau allanol effeithio ar y corff.

**Uned 8: Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.**

Yn yr uned hon, sy'n cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad, byddwch chi'n archwilio'r dulliau o ymdrin ag iechyd a llesiant person-ganolog a ddefnyddir gan ymarferwyr wrth gefnogi a rheoli ymddygiad oedolion yng Nghymru, ac yn ymchwilio i sut mae dulliau a thechnegau yn dylanwadu ar ddarpariaeth gofal i'r unigolyn.

**Uned 9: ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

Yn yr uned hon, sy'n cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad, byddwch chi'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae mynd i'r afael ag ymchwil a sut mae'n cael ei gyflwyno i ddatblygu'r ffordd y mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn cyflwyno gofal. Byddwch chi'n datblygu'r sgiliau i ymgymryd ag ymchwil eilaidd i fater cyfoes o'ch dewis eich hun o fewn y maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?

Drwy astudio'r Dystysgrif a/neu Ddiploma/Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, byddwch chi'n gallu datblygu a dangos eich gwybodaeth, sgiliau a'ch dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, byddwch chi'n gallu dangos eich bod yn:

- Deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu eu cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Deall a myfyrio ar sut y gellir nodi anghenion unigryw unigolion ac ymateb iddynt.
- Deall y modd y gellir hybu a chefnogi ymarfer a llesiant person-ganolog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso damcaniaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a myfyrio ar y modd y gallent ddylanwadu ar ymarfer.
- Ymwybodol o newidiadau polisi yn y sector a'r modd y mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau.
- Gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol o fewn eich astudiaethau.

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

| Tystysgrif | Diploma Unedau 1, 2 a 3 fel yr uchod – yn ogystal â'r canlynol: | Diploma Estynedig Unedau 1 i 6 fel uchod yn ogystal â'r canlynol: |
|---|---|---|
| **Bydd Uned 1:**<br>Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. | **Bydd Uned 4:**<br>Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol yn cael ei hasesu'n fewnol drwy asesiad di-arholiad: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. | **Bydd Uned 7:**<br>Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei marcio'n allanol drwy arholiad ysgrifenedig sydd: |
| • bydd 20 awr yn cael eu dyrannu ar gyfer yr asesiad hwn.<br>• Mae'n werth 25% o'r dystysgrif (12.5% o'r diploma)<br>• Mae'n cael ei farcio allan o 100.<br>• Mae'n cynnwys dwy dasg – ysgrifennu adroddiad a llunio pecyn gwybodaeth. | • Bydd yr asesiad yn defnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r ffordd y mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol.<br>• Bydd tasgau yn seiliedig ar ddewis o ysgogiadau y bydd CBAC yn eu gosod.<br>• bydd 15 awr yn cael eu dyrannu ar gyfer yr asesiad hwn.<br>• Mae'n werth 10% o'r diploma.<br>• Mae'n cael ei farcio allan o 60.<br>• Bydd y dystiolaeth yn cynnwys ysgrifennu erthygl a llunio ffeithlun. | • yn 2 awr o hyd.<br>• Yn cael ei farcio allan o 100.<br>• Yn gallu cael ei sefyll naill ai ar-sgrin neu fel papur ysgrifenedig.<br>• Yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau.<br>• Yn cynnwys cwestiynau gorfodol sy'n ymwneud ag anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. |

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

| Tystysgrif | Diploma Unedau 1, 2 a 3 fel yr uchod – yn ogystal â'r canlynol: | Diploma Estynedig Unedau 1 i 6 fel uchod yn ogystal â'r canlynol: |
|---|---|---|
| **Bydd Uned 2:**<br>Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes yn cael ei marcio'n allanol drwy arholiad ysgrifenedig sydd: | **Bydd Uned 5:**<br>Cefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael yn cael ei hasesu'n fewnol drwy asesiad di-arholiad sydd: | **Mae Uned 8:**<br>Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn cael ei hasesu'n fewnol drwy asesiad di-arholiad sydd: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. |
| • yn 1 awr a 45 munud o hyd.<br>• Mae'n werth 50% o'r dystysgrif (25% o'r diploma)<br>• Yn cael ei farcio allan o 100.<br>• Yn gallu cael ei sefyll naill ai ar-sgrin neu fel papur ysgrifenedig.<br>• Yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau.<br>• Yn cynnwys cwestiynau gorfodol yn unig. | • Mae 15 awr yn cael eu dyrannu ar gyfer yr asesiad hwn.<br>• Mae'n cael ei farcio allan o 100.<br>• Mae'r asesiad yn cynnwys dwy dasg.<br>• Bydd tasgau'n seiliedig ar ddewis o astudiaethau achos sydd ar gael ar wefan ddiogel CBAC bob blwyddyn.<br>• Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ar ffurf nodiadau achos a chynllun gofal a chymorth personol. | • Mae 15 awr yn cael eu dyrannu ar gyfer yr asesiad hwn.<br>• Mae'n cael ei farcio allan o 60.<br>• Mae dwy dasg sy'n defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o gefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru.<br>• Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o adroddiad a llyfryn gwybodaeth. |
| **Bydd Uned 3:**<br>Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes yn cael ei hasesu'n fewnol drwy asesiad di-arholiad sydd: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. | **Bydd Uned 6:**<br>Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei hasesu'n fewnol drwy asesiad di-arholiad sydd: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. | **Bydd Uned 9:**<br>Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yncael ei hasesu'n fewnol drwy asesiad di-arholiad sydd: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. |
| • bydd 20 awr yn cael eu dyrannu ar gyfer yr asesiad hwn.<br>• Mae'n werth 25% o'r dystysgrif (12.5% o'r diploma)<br>• Mae'n cael ei farcio allan o 80.<br>• Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth ar gyfer tasgau gosod i ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o hybu hawliau unigolion wrth gefnogi eu hiechyd a llesiant.<br>• Bydd y dystiolaeth yn seiliedig ar grŵp o unigolion o'ch dewis chi.<br>• Bydd angen i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno naill ai fel podlediad, cyflwyniad neu fideo. | • Mae'r asesiad yn cynnwys tasgau y bydd CBAC yn eu gosod sy'n seiliedig ar eich cyfnod ymgysylltu â'r sector a lleoliad gwaith.<br>• Mae 18 awr yn cael eu dyrannu ar gyfer yr asesiad hwn.<br>• Mae'n cael ei farcio allan o 120. | • Mae 20 awr yn cael eu dyrannu ar gyfer yr asesiad hwn.<br>• Mae'n cael ei farcio allan o 82.<br>• Bydd angen i chi gynnal eich ymchwiliad eich hun i fater cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.<br>• Bydd angen tystiolaeth arnoch o waith cynllunio a chwblhau eich project ymchwil. |

## Gyrfaoedd gyda Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol Egwyddorion a Chyd-destunau

Mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i chi hyd yn oed os nad ydych chi'n mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach, ond gallwch chi hefyd symud ymlaen i gymwysterau eraill o fewn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant; er enghraifft, cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer. Mae hefyd yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch neu brentisiaethau.